# Cyngor Cymuned Llandybïe
# Rhestr o Orchmynion Sefydlog


| | | |
|---|---|---|
| **1.** | Rheolau trafodaethau mewn cyfarfodydd | 2 |
| **2.** | Ymddygiad afreolus mewn cyfarfodydd | 4 |
| **3.** | Cyfarfodydd yn gyffredinol | 4 |
| **4.** | Pwyllgorau ac is-bwyllgorau | 6 |
| **5.** | Cyfarfodydd arferol y cyngor | 7 |
| **6.** | Cyfarfodydd arbennig y cyngor a phwyllgorau ac is-bwyllgorau | 8 |
| **7.** | Cynigion blaenorol | 9 |
| **8.** | Pleidleisio i benodi | 9 |
| **9.** | Cynigion ar gyfer cyfarfod lle bo angen rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r Swyddog Priodol | 9 |
| **10.** | Cynigion mewn cyfarfod lle nad oes angen hysbysiad ysgrifenedig | 10 |
| **11.** | Delio â gwybodaeth gyfrinachol neu sensitif | 11 |
| **12.** | Cofnodion drafft | 11 |
| **13.** | Cod ymddygiad ac esgusodebau | 12 |
| **14.** | Cwynion cod ymddygiad | 12 |
| **15.** | Swyddog Priodol | 12 |
| **16.** | Swyddog Ariannol Cyfrifol | 13 |
| **17.** | Cyfrifon a datganiadau cyfrifyddu | 13 |
| **18.** | Rheoliadau ariannol a chaffael | 14 |
| **19.** | Delio â materion staff | 15 |
| **20.** | Ceisiadau am wybodaeth | 16 |
| **21.** | Cysylltiadau â'r wasg/cyfryngau | 16 |
| **22.** | Gweithredu a selio gweithredoedd cyfreithiol | 17 |
| **23.** | Cyfathrebu â chynghorwyr Sir | 17 |
| **24.** | Cyfyngiadau ar weithgarwch cynghorwyr | 17 |
| **25.** | Defnyddio'r Iaith Gymraeg | 17 |
| **26.** | Rheolau Sefydlog yn gyffredinol | 17 |

# Gorchmynion sefydlog

## 1 Rheolau trafodaethau mewn cyfarfodydd

a Dylid ystyried cynigion ar yr agenda yn y drefn y maent yn ymddangos oni bai y newidir y drefn yn ôl disgresiwn cadeirydd y cyfarfod.

b Ni ddylid symud ymlaen a chynnig (gan gynnwys diwygiad) tan y gwneir y cynnig ac y caiff ei eilio.

c Gall cadeirydd y cyfarfod ystyried bod cynnig ar yr agenda nad yw wedi'i gynnig gan ei gynigydd wedi'i dynnu yn ôl.

d Os yw cynnig (gan gynnwys diwygiad) wedi'i eilio, gall gael ei dynnu'n ôl gan y cynigydd gyda chaniatâd yr eilydd a'r cyfarfod yn unig.

e Diwygiad yw cynnig i ddileu neu ychwanegu geiriau at gynnig. Ni fydd yn negyddu'r cynnig.

f Os derbynnir diwygiad i'r cynnig gwreiddiol, daw'r cynnig gwreiddiol yn gynnig terfynol lle gellir derbyn diwygiad/diwygiadau pellach.

g Ni ystyrir diwygiad oni bai y rhoddir hysbysiad ar lafar yn gynnar amdano yn y cyfarfod, ac os bydd cadeirydd y cyfarfod yn gofyn, dylid ei roi'n ysgrifenedig i'r cadeirydd.

h Gall cynghorydd gynnig diwygiad i'w gynnig ei hun os yw'r cyfarfod yn cytuno ar hyn. Os yw cynnig eisoes wedi'i eilio, gwneir y diwygiad gyda chaniatâd yr eilydd yn y cyfarfod.

i Os oes mwy nag un diwygiad i gynnig gwreiddiol neu gynnig terfynol, cynigir y diwygiadau yn y drefn yn ôl cyfarwyddyd y cadeirydd.

j Yn amodol ar reol sefydlog 1(k) isod, dim ond un cynnig y dylid ei gynnig a'i drafod ar y tro, a chadeirydd y cyfarfod fydd yn cyfarwyddo'r drefn hon.

k Gellir trafod un neu fwy o ddiwygiadau gyda'i gilydd os yw cadeirydd y cyfarfod yn ystyried bod hyn yn hwylus ond dylid pleidleisio ar wahân ar bob diwygiad.

l Ni all cynghorydd gynnig mwy nag un diwygiad i gynnig gwreiddiol neu gynnig terfynol.

m Nid oes gan gynigydd diwygiad yr hawl i ymateb ar ddiwedd y drafodaeth amdano.

n Pan dderbynnir cyfres o ddiwygiadau i gynnig gwreiddiol, bydd gan gynigydd y cynnig

gwreiddiol yr hawl i ymateb un ai ar ddiwedd trafodaeth am y diwygiad cyntaf neu ar ddiwedd y drafodaeth gyfan am y cynnig terfynol olaf yn syth cyn y bleidlais.

o Oni bai y caniateir gan gadeirydd y cyfarfod, dim ond unwaith y gall cynghorydd siarad yn ystod trafodaeth am gynnig ac eithrio:

i. i siarad am ddiwygiad a gynigiwyd gan gynghorydd arall;
ii. i gynnig neu siarad am ddiwygiad arall os yw'r cynnig wedi'i ddiwygio ers iddo siarad ddiwethaf;
iii. i wneud mater o drefn;
iv. i roi eglurhad personol; neu
v. wrth arfer ei hawl i ymateb.

p Yn ystod trafodaeth am gynnig, gall cynghorydd ymyrryd yn unig ar fater o drefn neu eglurhad personol a dylai'r cynghorydd yr ymyrrwyd arno roi'r gorau i siarad. Dylai cynghorydd sy'n codi mater o drefn nodi'r rheol sefydlog y mae'n ystyried sydd wedi'i thorri neu nodi'r anghysondeb arall yn nhrafodaethau'r cyfarfod sy'n peri pryder iddo.

q Bydd cadeirydd y cyfarfod yn penderfynu ar fater o drefn a bydd ei ddyfarniad yn derfynol.

r Pan fydd cynnig yn cael ei drafod, ni ddylid derbyn unrhyw gynnig arall ac eithrio:

i. diwygio'r cynnig;
ii. parhau i'r mater nesaf;
iii. gohirio'r drafodaeth;
iv. cynnal pleidlais ar y cynnig;
v. gofyn i unigolyn roi'r gorau i siarad neu adael y cyfarfod;
vi. cyfeirio cynnig i bwyllgor neu is-bwyllgor ei ystyried;
vii. eithrio'r cyhoedd a'r wasg;
viii. gohirio'r cyfarfod; neu
ix. diarddel rheol(au) sefydlog penodol ac eithrio'r rheini sy'n adlewyrchu gofynion statudol gorfodol.

s Cyn y cynhelir pleidlais ar gynnig gwreiddiol neu derfynol, bydd cadeirydd y cyfarfod yn fodlon bod y cynnig wedi'i drafod yn ddigonol a bod symudwr y cynnig dan sylw wedi defnyddio neu ildio'i hawl i ymateb.

t Gan eithrio cynigion a gynigiwyd o dan reol sefydlog 1(r) uchod, dylai cyfraniadau neu areithiau gan gynghorydd ymwneud yn unig â'r cynnig sy'n cael ei drafod ac ni ddylai gymryd yn hwy na 3 munud heb ganiatâd cadeirydd y cyfarfod.

## 2 Ymddygiad afreolus mewn cyfarfodydd

a Ni ddylai unrhyw unigolyn rwystro gweithrediad busnes mewn cyfarfod nac ymddwyn yn dramgwyddus neu'n amhriodol. Os anwybyddir y rheol sefydlog, bydd cadeirydd y cyfarfod yn gofyn i unigolyn/ion o'r fath gymedroli neu wella'u hymddygiad.

b Os yw unigolyn/ion yn anwybyddu cais cadeirydd y cyfarfod i gymedroli neu wella'u hymddygiad, gall unrhyw gynghorydd neu gadeirydd y cyfarfod gynnig na chaiff yr unigolyn/ion hynny eu clywed rhagor neu eu gwahardd o'r cyfarfod. Os caiff y cynnig ei eilio, cynhelir pleidlais heb drafodaeth.

c Os caiff penderfyniad a wnaethpwyd o dan reol sefydlog 2(b) ei anwybyddu, gall cadeirydd y cyfarfod gymryd camau rhesymol pellach i adfer trefn neu i symud ymlaen â'r cyfarfod. Gallai hyn gynnwys gwahardd dros dro neu ddod â'r cyfarfod i ben.

## 3 Cyfarfodydd yn gyffredinol

- ■ (coch) Cyfarfodydd y cyngor llawn
- ■ (oren) Cyfarfodydd pwyllgorau
- ■ (gwyrdd) Cyfarfodydd Is-bwyllgorau

■ (coch) a Ni ddylid cynnal cyfarfodydd ar safleoedd sy'n cael eu defnyddio adeg y cyfarfod i gyflenwi alcohol, oni bai nad oes safle arall ar gael am ddim neu am gost resymol.

■ (coch) b Nid yw'r lleiafswm o dri diwrnod clir o rybudd ar gyfer cyfarfod yn cynnwys y diwrnod y cyhoeddwyd y rhybudd, diwrnod y cyfarfod, dydd Sul, diwrnod o wyliau'r Nadolig, diwrnod o wyliau'r Pasg neu ŵyl banc na diwrnod penodol o ddiolchgarwch neu alaru cyhoeddus.

■ (oren) c Nid yw'r lleiafswm o dri diwrnod clir o rybudd cyhoeddus ar gyfer cyfarfod yn cynnwys y diwrnod y cyhoeddwyd y rhybudd na diwrnod y cyfarfod oni bai y trefnir y cyfarfod ar gyfnod hysbysu byrrach.

■ (oren) ■ (coch) d Bydd y cyfarfodydd yn agored i'r cyhoedd ac eithrio os yw eu presenoldeb yn rhagfarnllyd i les y cyhoedd oherwydd natur gyfrinachol y busnes i'w drafod neu am resymau arbennig eraill. Bydd y penderfyniad i eithrio'r cyhoedd o ran o'r cyfarfod neu'r cyfarfod cyfan yn cynnwys rhesymau dros eithrio'r cyhoedd.

e Gall aelodau'r cyhoedd gyflwyno, ateb cwestiynau a rhoi tystiolaeth mewn cyfarfod lle mae ganddynt yr hawl i fod yn bresennol mewn perthynas â busnes ar yr agenda.

f Ni ddylai cyfnod amser a ddynodwyd ar gyfer cyfranogiad y cyhoedd mewn cyfarfod yn unol â rheol sefydlog 3(e) uchod fod dros 20 munud oni bai ei fod yn unol â chyfarwyddiadau cadeirydd y cyfarfod.

g Yn amodol ar reol sefydlog 3(f) uchod, ni ddylai aelod o'r cyhoedd siarad am dros 3 munud.

h Yn unol â rheol sefydlog 3(e) uchod, nid yw'n ofynnol ymateb i gwestiwn yn y cyfarfod na dechrau trafodaeth am y cwestiwn. Gall cadeirydd y cyfarfod gyfarwyddo y rhoddir ymateb yn ysgrifenedig neu ar lafar.

i Dylai unigolyn sy'n siarad mewn cyfarfod gyfeirio ei sylwadau at gadeirydd y cyfarfod.

j Caniateir un person yn unig i siarad ar y tro. Os yw mwy nag un person am siarad, bydd cadeirydd y cyfarfod yn cyfarwyddo trefn y siarad.

k Ni chaniateir tynnu ffotograffau, recordio, darlledu na thrawsyrru gweithdrefnau cyfarfod mewn unrhyw fodd heb ganiatâd y Cyngor.

l Rhoddir cyfleusterau rhesymol i'r wasg er mwyn iddi gofnodi'i hadroddiad o ran o'r cyfarfod neu'r cyfarfod cyfan le mae ganddi'r hawl i fod yn bresennol.

m Yn amodol ar reolau sefydlog sy'n nodi i'r gwrthwyneb, gall unrhyw beth y mae angen i gadeirydd y cyngor ei awdurdodi, ei wneud, ei wneud ganddo neu ei wneud yn ei ŵydd yn ei absenoldeb gael ei wneud gan neu ei wneud yng ngŵydd yr is-gadeirydd (os o gwbl).

n Y cadeirydd, os yw'n bresennol, fydd yn llywyddu cyfarfod. Os yw'r cadeirydd yn absennol o gyfarfod, yr is-gadeirydd, os yw'n bresennol, fydd yn llywyddu. Os yw'r cadeirydd a'r is-gadeirydd yn absennol o gyfarfod, bydd cynghorydd a ddewiswyd gan y cynghorwyr yn y cyfarfod yn llywyddu'r cyfarfod.

o Yn amodol ar fod digon yn y cyfarfod i greu cworwm, penderfynir ar bob cwestiwn yn y cyfarfod gan fwyafrif y cynghorwyr. ********

p Gall cadeirydd y cyfarfod roi pleidlais wreiddiol ar unrhyw fater y cynhelir pleidlais arno, ac os yw'r pleidleisiau'n gyfartal, gall ddefnyddio'i bleidlais fwrw os gwnaeth roi pleidlais wreiddiol ai peidio.
*Gweler rheolau sefydlog 5(i) a (j) isod i weld y rheolau gwahanol sy'n berthnasol wrth ethol cadeirydd y cyngor yng nghyfarfod blynyddol y cyngor.*

q Onid yw rheolau sefydlog yn trefnu fel arall, cynhelir pleidlais ar fater trwy godi dwylo. Os yw cynghorydd yn gofyn, bydd y pleidleisio ar unrhyw fater yn cael ei gofnodi er mwyn dangos a roddodd pob cynghorydd sy'n bresennol ac yn pleidleisio ei b/phleidlais dros neu yn erbyn y mater dan sylw. Dylid gwneud cais

o'r fath cyn symud ymlaen at yr eitem nesaf ar yr agenda.

r Dylai cofnodion cyfarfod gynnwys cofnod cywir o'r canlynol:

i. amser a lleoliad y cyfarfod;
ii. enwau'r cynghorwyr presennol ac absennol;
iii. buddion a ddatganwyd gan gynghorwyr.
iv. a oedd cynghorydd neu aelod nad yw'n gynghorydd a chanddynt hawl i bleidleisio wedi gadael y cyfarfod pan oedd materion a chanddynt fuddion ynddynt yn cael eu hystyried;
v. os cafwyd sesiwn cyfranogiad cyhoeddus; a
vi. rheoliadau a wnaethpwyd.

s *Mae cynghorydd neu aelod nad yw'n gynghorydd a chanddynt hawl i bleidleisio ac a chanddynt fuddiant personol neu sy'n rhagfarnu â mater sy'n cael ei ystyried mewn cyfarfod sy'n cyfyngu ar ei hawl i gymryd rhan mewn trafodaeth neu bleidlais ar y mater hwnnw, neu'n ei rwystro'n gyfan gwbl, yn amodol ar rwymedigaethau'r cod ymddygiad a fabwysiadwyd gan y cyngor.*

t Ni cheir dwyn i ben unrhyw fusnes mewn cyfarfod oni bai fod o leiaf un rhan o dair o gyfanswm nifer aelodau'r cyngor yn bresennol ac ni all cworwm cyfarfod mewn unrhyw achos fod yn llai na thri.

*Gweler rheol sefydlog 4d(viii) isod ar gyfer cworwm cyfarfod pwyllgor neu is-bwyllgor.*

u Os yw cyfarfod heb gworwm neu os yw'n datblygu i fod heb gworwm yna ni cheir dwyn i ben unrhyw fusnes a dylid dod â'r cyfarfod i ben. Dylid gohirio'r materion ar yr agenda i gyfarfod arall.

v Ni ddylai cyfarfod bara'n hwy na 2 awr.

# 4 Pwyllgorau ac is-bwyllgorau

a Oni bai fod y cyngor yn pennu fel arall, gall pwyllgor benodi is-bwyllgor a chaiff cylch gorchwyl ac aelodau'r pwyllgor eu pennu gan y pwyllgor.

b Gall aelodau pwyllgor gynnwys aelodau nad ydynt yn gynghorwyr oni bai ei fod yn bwyllgor sy'n rheoleiddio ac yn rheoli cyllid y cyngor.

c Oni bai fod y cyngor yn pennu fel arall, gall pob aelod o bwyllgor cynghori ac is-bwyllgor y pwyllgor cynghori fod yn aelodau nad ydynt yn gynghorwyr.

d Gall y cyngor benodi pwyllgorau sefydlog neu bwyllgorau eraill yn ôl yr angen, a:

i. bydd yn pennu eu cylch gorchwyl;
ii. bydd yn pennu nifer y cyfarfodydd ac amser cyfarfodydd y pwyllgor

sefydlog hyd ddyddiad cyfarfod blynyddol nesaf y cyngor llawn;

iii. bydd yn rhoi caniatâd i bwyllgor, ac eithrio o ran cyfarfodydd arferol pwyllgor, bennu nifer y cyfarfodydd a'u hamserau;

iv. bydd, yn amodol ar reolau sefydlog 4(b) a (c) uchod, yn penodi ac yn pennu cyfnodau swydd aelodau pwyllgor o'r fath;

v. gall, yn amodol ar reolau sefydlog 4(b) a (c) uchod, benodi a phennu cyfnodau swydd eilyddion pwyllgor y mae eu rôl yw cymryd lle'r aelodau arferol mewn cyfarfod pwyllgor os yw aelodau arferol y pwyllgor yn cadarnhau â'r Swyddog Priodol 7 diwrnod cyn y cyfarfod na allant fod yn bresennol;

vi. bydd, ar ôl penodi aelodau pwyllgor sefydlog, yn penodi cadeirydd y pwyllgor sefydlog;

vii. bydd yn caniatáu i bwyllgor ac eithrio'r pwyllgor sefydlog, benodi ei gadeirydd ei hun yng nghyfarfod cyntaf y pwyllgor;

viii. bydd yn pennu man cyfarfod, gofynion hysbysu a chworwm cyfarfod pwyllgor ac is-bwyllgor a ddylai gynnwys dim llai na thri aelod;

ix. bydd yn pennu a all y cyhoedd gymryd rhan mewn cyfarfod pwyllgor;

x. bydd yn pennu a all y cyhoedd a'r wasg fod yn bresennol yng nghyfarfodydd is-bwyllgor a hefyd y gofynion hysbysu cyhoeddus ymlaen llaw, os o gwbl, sy'n ofynnol ar gyfer cyfarfodydd is-bwyllgor;

xi. bydd yn pennu a all y cyhoedd gymryd rhan mewn cyfarfod is-bwyllgor y mae ganddynt ganiatâd i fod yn bresennol ynddo; a

xii. gall ddiddymu pwyllgor.

xiii. bydd y cadeirydd, yr is-gadeirydd a'r cadeirydd blaenorol, yn rhinwedd ei swydd, yn aelodau â phleidlais ym mhob Pwyllgor.

# 5 Cyfarfodydd arferol y cyngor

a Mewn blwyddyn pan fydd etholiad, cynhelir cyfarfod blynyddol y cyngor ar neu cyn pen 14 diwrnod yn dilyn y diwrnod y mae'r cynghorwyr newydd yn ymgymryd â'u swyddi.

b Mewn blwyddyn lle nad oes etholiad, cynhelir cyfarfod blynyddol cyngor ar ddiwrnod ym mis Mai yn ôl cyfarwyddyd y cyngor.

c Os na phennir amser arall, cynhelir cyfarfod blynyddol y cyngor am 6:30pm.

d Yn ogystal â chyfarfod blynyddol y cyngor, gellir cynnal unrhyw nifer o gyfarfodydd arferol mewn blwyddyn ar ddyddiadau ac amserau yn ôl cyfarwyddyd y cyngor.

e Y busnes cyntaf i'w gynnal yng nghyfarfod blynyddol y cyngor fydd ethol cadeirydd ac is-gadeirydd (os o gwbl) y cyngor. Ystyrir enwebiadau ac etholir cadeirydd ar gyfer aelodau Wardiau Llandybïe, Penygroes a Saron bob pedair blynedd ar sail rota, ond gan gofio yr ystyrir enwebu aelodau Ward Heol Ddu bob wyth mlynedd onibai bod yr Aelodau'n penderfynu'n wahanol.

f Ni all aelod gael ei ethol yn gadeirydd na'n is-gadeirydd cyngor os nad yw wedi cyflawni dwy flynedd neu ragor o wasanaeth yn aelod o'r cyngor, a gall hyn fod yn wasanaeth parhaus neu doredig.

g Bydd cadeirydd y cyngor, oni bai ei fod wedi ymddiswyddo neu'n cael ei ddiarddel, yn parhau yn ei swydd a bydd yn llywyddu'r cyfarfod blynyddol tan i'w olynydd gael ei ethol yng nghyfarfod blynyddol nesaf y cyngor.

h Bydd is-gadeirydd y cyngor, os oes un, oni bai ei fod yn ymddiswyddo neu'n cael ei ddiarddel, yn parhau yn ei swydd tan yn syth ar ôl ethol cadeirydd y cyngor yng nghyfarfod blynyddol nesaf y cyngor.

i Yn ystod blwyddyn etholiad, os nad yw cadeirydd presennol y cyngor wedi'i ail-ethol yn aelod o'r cyngor, bydd yn llywyddu'r cyfarfod tan i gadeirydd olynol y cyngor gael ei ethol. Ni fydd gan gadeirydd presennol y cyngor bleidlais wreiddiol mewn perthynas ag ethol cadeirydd newydd y cyngor ond mae'n rhaid iddo roi pleidlais fwrw os yw nifer y pleidleisiau'n gyfartal.

j Yn ystod blwyddyn etholiad, os yw cadeirydd presennol y cyngor wedi'i ail-ethol yn aelod o'r cyngor, bydd yn llywyddu'r cyfarfod tan i gadeirydd olynol y cyngor gael ei ethol. Gallai ddefnyddio pleidlais wreiddiol mewn perthynas ag
ethol cadeirydd newydd y cyngor ac mae'n rhaid iddo roi pleidlais fwrw os yw nifer y pleidleisiau'n gyfartal.

k Yn dilyn ethol cadeirydd y cyngor ac is-gadeirydd (os o gwbl) y cyngor yng nghyfarfod blynyddol y cyngor, dylai busnes y cyfarfod blynyddol gynnwys:

i. Mewn blwyddyn etholiad, cadeirydd y cyngor a chynghorwyr i ddarparu ffurflen derbyn swydd oni bai fod y cyngor yn penderfynu gwneud hyn yn ddiweddarach. Mewn blwyddyn lle nad oes etholiad, cadeirydd y cyngor i ddarparu ffurflen derbyn swydd oni bai fod y cyngor yn penderfynu gwneud hyn yn ddiweddarach.
ii. Cadarnhau cywirdeb cofnodion cyfarfod diwethaf y Cyngor;
iii. Derbyn cofnodion cyfarfod diwethaf y pwyllgor;
iv. Ystyried argymhellion a wneud gan bwyllgor;
v. Adolygu trefniadau dirprwyo i bwyllgorau, is-bwyllgorau, staff ac awdurdodau lleol eraill;
vi. Adolygu cylch gorchwyl pwyllgorau;
vii. Penodi aelodau i bwyllgorau presennol;
viii. Penodi unrhyw bwyllgorau newydd yn unol â rheol sefydlog 4 uchod;
ix. Adolygu a mabwysiadu rheolau sefydlog a rheoliadau ariannol priodol;
x. Adolygu trefniaidau (gan gynnwyscytendebau cyfreithiol) gydag awdurdodau lleol erail, cyrff nid er mwtn gwneud elw a busnesau
xi. Adolygu cynrychiolaeth ar gyrff allanol neu weithio gyda nhw a threfniadau ar gyfer adrodd yn ôl;
xii. Adolygu stocrestr o dir ac asedau eraill gan gynnwys adeiladau ac offer swyddfa;
xiii. Cadarnhau trefniaddau ar gufer gwarant yswiriant ar gyfer pob risg yswirwadwy;
xiv. Adolygu tanysgrifiadau’r Cyngor a/neu staff i gyrff eraill;
xv. Adolygu gweithdrefn cwynion y Cyngor;

xvi. Adolygu poisiau, gweithdrefnau ac arferion y Cyngor a ran ei gyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth ryddid gwybodaeth a diogelu data;
xvii. Adolygu polisi’r Cyngor ar gyfer delio a’r wasg/cyfryngau.
xviii. Adolygu polisiau a gweithdrefnau cyflogaeth y Cyngor;
xix. Adolygu gwariant y Cyngor o o dan a.137 Deddf Llywodraeth Leol 1972 neu’r pwer llesiant;
xx. Pennu amser a man cyfarfod cyfarfodydd arferol y cyngor llawn hyd at a chan gynnwys cyfarfod blynyddol nesaf y cyngor llawn.

# 6 Cyfarfodydd arbennig y cyngor a phwyllgorau ac is-bwyllgorau

a Gall cadeirydd y cyngor alw cyfarfod arbennig y cyngor ar unrhyw adeg.

b Os nad yw cadeirydd y cyngor yn galw cyfarfod arbennig o'r cyngor neu ei fod yn gwrthod galw cyfarfod arbennig cyn pen saith diwrnod o gael cais ysgrifenedig gan ddau gynghorydd i wneud hynny, gall unrhyw ddau gynghorydd alw cyfarfod arbennig o'r cyngor. Mae'n rhaid i'r hysbysiad cyhoeddus sy'n nodi amser, lle ac agenda cyfarfod o'r fath gael ei lofnodi gan y ddau gynghorydd.

c Gall cadeirydd pwyllgor alw cyfarfod arbennig y pwyllgor ar unrhyw adeg.

d Os nad yw cadeirydd pwyllgor yn galw cyfarfod arbennig neu ei fod yn gwrthod galw cyfarfod cyn pen saith diwrnod o gael cais gan ddau aelod o'r pwyllgor i wneud hynny, gall unrhyw ddau aelod o'r pwyllgor alw cyfarfod arbennig o'r pwyllgor.

# 7 Cynigion blaenorol

a Ni ddylai cynnig gael ei wrthdroi cyn pen chwe mis ac eithrio un ai trwy gynnig arbennig, lle mae'n rhaid rhoi hysbysiad ysgrifenedig gan ddim llai na saith cynghorydd i'r Swyddog Priodol yn unol â rheol sefydlog 9 isod, neu drwy gynnig a gynigiwyd yn unol ag argymhelliad pwyllgor neu is-bwyllgor.

Pan fod cynnig a gynigiwyd yn unol â rheol sefydlog 7(a) uchod wedi'i waredu, ni ellir cynnig unrhyw gynnig tebyg arall ymhen chwe mis arall.

# 8 Pleidleisio i benodi

a Os oes dros ddau unigolyn wedi'u henwebu am swydd i'w llenwi gan y cyngor ac nid yw yr un o'r unigolion hynny wedi cael mwyafrif y pleidleisiau o'u plaid, caiff enw'r unigolyn a chanddo'r nifer leiaf o bleidleisiau ei dynnu o'r rhestr a chynhelir pleidlais arall. Bydd y broses hon yn parhau tan i unigolyn gael mwyafrif y pleidleisiau o'i blaid. Os oes pleidlais gyfartal, gall cadeirydd y cyfarfod ddefnyddio'i bleidlais fwrw i ddatrys

hyn.

# 9 Cynigion ar gyfer cyfarfod lle bo angen rhoi hysbysiad ysgrifenedig i’r Swyddog Priodol

a Bydd cynnig yn ymwneud â chyfrifoldebau'r cyfarfod y cyflwynwyd ar ei gyfer a bydd mewn unrhyw amgylchiad yn ymwneud â pherfformiad swyddogaethau, pwerau a rhwymedigaethau statudol y cyngor neu fater sy'n effeithio'n arbennig ar ardal y cyngor neu'i phreswylwyr.

b Ni ellir cynnig unrhyw gynnig mewn cyfarfod oni bai ei fod ar yr agenda a bod y cynigydd wedi rhoi hysbysiad ysgrifenedig o'i eiriad i'r Swyddog Priodol ddim llai na 7 diwrnod clir cyn y cyfarfod. Nid yw diwrnodau clir yn cynnwys diwrnod cyhoeddi'r hysbysiad na diwrnod y cyfarfod.

c Gall y Swyddog Priodol, cyn cynnwys cynnig ar yr agenda a gafwyd yn unol â rheol sefydlog 9(b) uchod, gywiro gwallau gramadegol neu deipio amlwg yng ngeiriad y cynnig.

d Os yw'r Swyddog Priodol yn ystyried nad yw geiriad cynnig a gafwyd yn unol â rheol sefydlog 9(b) uchod yn glir o ran yr ystyr, gwrthodir y cynnig tan i gynigydd y cynnig ei ailgyflwyno yn ysgrifenedig i'r Swyddog Priodol er mwyn ei ddeall ddim llai na 7 diwrnod clir cyn y cyfarfod.

e Os ystyrir geiriad neu bwnc cynnig arfaethedig yn amhriodol, bydd y Swyddog Priodol yn ymgynghori â chadeirydd y cyfarfod sydd ar y gweill neu, yn dibynnu ar y sefyllfa, y cynghorwyr sydd wedi galw'r cyfarfod, i ystyried a ddylid cynnwys y cynnig ar yr agenda neu'i wrthod.

f Bydd penderfyniad y Swyddog Priodol o ran a ddylid cynnwys y cynnig ar yr agenda ai peidio yn derfynol.

g Cofnodir cynygion mewn llyfr I’r perwyl hwnnw a chant eu eu rhifo yn nhrefn eu derbyn.

h Dylid cofnodi'r cynigion a wrthwynebir mewn llyfr at y diben hwnnw gydag eglurhad gan y Swyddog Priodol dros eu gwrthod.

# 10 Cynigion mewn cyfarfod lle nad oes angen hysbysiad ysgrifenedig

a Gellir cynnig y cynigion canlynol mewn cyfarfod heb orfod anfon hysbysiad ysgrifenedig

at y Swyddog Priodol;

i. cywiro gwall yng nghofnodion drafft cyfarfod;
ii. cynnig pleidlais;
iii. gohirio ystyried cynnig;
iv. cyfeirio cynnig at bwyllgor neu is-bwyllgor penodol;
v. penodi unigolyn i lywyddu mewn cyfarfod;
vi. newid trefn y materion ar yr agenda;
vii. parhau i'r mater nesaf ar yr agenda;
viii. gofyn am adroddiad ysgrifenedig;
ix. penodi pwyllgor neu is-bwyllgor a'u haelodau;
x. ymestyn y cyfyngiadau amser i siarad;
xi. eithrio'r wasg a'r cyhoedd o gyfarfod oherwydd gwybodaeth gyfrinachol neu sensitif sy'n rhagfarnllyd i les y cyhoedd;
xii. peidio â chlywed rhagor gan gynghorydd neu aelod o'r cyhoedd;
xiii. eithrio cynghorydd neu aelod o'r cyhoedd am ymddygiad afreolus;
xiv. gwahardd y cyfarfod dros dro;
xv. gwahardd rheol sefydlog benodol (oni bai ei bod yn adlewyrchu gofynion statudol);
xvi. gohirio'r cyfarfod; neu
xvii. dod â chyfarfod i ben.

# 11 Delio â gwybodaeth gyfrinachol neu sensitif

Gweler hefyd reol sefydlog 20.

a Bydd y Cyngor yn trefnu ac adolygu camau technegol a sefydliadol i gadw’n ddiogel wybodaeth (gan gynnwys data personol) a gedwir ganddo ar bapur ac yn electronaidd. Bydd y cyfryw drefniadau yn cynnwys penderfynu pwy gaiff fynediad at ddata personol ac amgryptio data personol.

b Bydd y Cyngor yn trefnu ac adolygu polisïau ar gyfer cadw a dinistrio’n ddiogel yr holl wybodaeth (gan gynnwys data personol) a gedwir ganddo ar bapur ac yn electronaidd. Bydd polisi cadw’r Cyngor yn cadarnhau am ba gyfnod y caiff gwybodaeth (gan gynnwys data personol) ei chadw neu os nad yw hynny’n bosib y meini prawf a ddefnyddir i bennu’r cyfnod hwn (e.e. Deddf Cyfyngu 1980).

c Ni fydd yr agenda, y papurau sy’n cefnogi’r agenda a chofnodion cyfarfod yn datgelu nac yn tanseilio mewn unrhyw ffordd arall wybodaeth gyfrinachol na data personol heb gyfiawnhad cyfreithiol.

d Ni fydd cynghorwyr, staff, contractwyr ac asiantwyr y Cyngor yn datgelu gwybodaeth gyfrinachol na data personol heb gyfiawnhad cyfreithiol.

a Ni ddylai'r agenda, y papurau sy'n cefnogi'r agenda na chofnodion cyfarfod ddatgelu neu fel arall danseilio gwybodaeth gyfrinachol neu sensitif na fyddai am resymau arbennig o ddiddordeb i'r cyhoedd.

b Ni ddylai cynghorwyr na staff ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol neu sensitif y mae'r cyngor wedi cytuno na fyddai o les i'r cyhoedd.

# 12 Cofnodion drafft

a Ystyrir bod cofnodion wedi'u darllen os yw cofnodion drafft cyfarfod blaenorol wedi'u cyflwyno i gynghorwyr ynghyd â'r agenda i fynd i'r cyfarfod lle byddant yn cael eu cymeradwyo o ran eu cywirdeb.

b Ni fydd trafodaeth am gofnodion drafft cyfarfod blaenorol ac eithrio mewn perthynas â'u cywirdeb. Cynigir cynnig i gywiro gwall yn y cofnodion drafft yn unol â rheol sefydlog 10(a)(i) uchod.

c Caiff cywirdeb cofnodion drafft, gan gynnwys unrhyw ddiwygiad(au) a wnaethpwyd iddynt, eu cadarnhau gan benderfyniad a chaiff ei lofnodi gan gadeirydd y cyfarfod a bydd yn gofnod cywir o'r cyfarfod y mae'r cofnodion yn berthnasol iddo.

d Os nad yw cadeirydd y cyfarfod yn ystyried bod y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfod y maent yn berthnasol iddo, bydd yn llofnodi'r cofnodion ac yn cynnwys paragraff fel y canlynol neu i'r un perwyl:

> "Nid yw cadeirydd y cyfarfod hwn yn credu bod cofnodion cyfarfod y ( ) a gynhaliwyd ar [dyddiad] mewn perthynas â ( ) yn gofnod cywir ond ni ategwyd ei farn gan y cyfarfod ac mae'r cofnodion wedi'u cadarnhau fel cofnod cywir o'r trafodaethau."

e Yn amodol ar reol sefydlog 20(a) ac wedi gwneud penderfyniad sy'n cadarnhau cywirdeb cofnodion cyfarfod, caiff drafft gonodion neu recordiadau'r cyfarfod y ceir cofnodion wedi'u cymeradwyo ar ei gyfer eu dinistrio.

# 13 Cod ymddygiad a goddefebau

*Gweler hefyd rheol sefydlog 3(s) uchod.*

a Bydd cynghorwyr ac aelodau nad ydynt yn gynghorwyr a chanddynt hawl i bleidleisio yn dilyn y cod ymddygiad a fabwysiadwyd gan y cyngor.

b Bydd pob cynghorydd yn mynd ar hyfforddiant ar y cod ymddygiad cyn pen chwe mis o ddarparu ei ffurflen derbyn swydd.

c Bydd rhaid cyflwyno esgusodebau yn ysgrifenedig i bwyllgor safonau'r Cyngor Sir cyn gynted â phosibl cyn y cyfarfod lle mae angen yr esgusodeb ar ei gyfer

# 14 Cwynion cod ymddygiad

a Wedi cael gwybod gan Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Carmarthenshire County Council ei fod yndelio a chwyn fod cynghorydd wedi torri cod ymddygiad y Cyngor, bydd y Swyddog Proidol, yn amodol ar reol sefydlog 11, yn adrodd hyn i'r Cyngor.

b Pan mae'r hysbysiad yn rheol sefydlog 14(a) yn ymwneud a chwyn a wnaed gan y Swyddog Priodol, bydd y Swyddog Priodol yn rhoi gwybod am hyn I Gadeirydd y Cyngor, a bydd y Caierydd yn enwebu aelod arall o'r staff i ymgymryd a dyletswyddau'r Swyddog Priodol o ran y gwyn hyd nes y cafodd ei phenderfynu.

Gall y cyngor:

i. ddarparu gwybodaeth neu dystiolaeth lle bo datgeliad o'r fath yn hanfodol ar gyfer cynyddu ymchwiliad i'r gŵyn neu sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith;
ii. ceisio gwybodaeth sy'n berthnasol i'r gŵyn gan yr unigolyn neu gorff a chanddo gyfrifoldeb statudol dros ymchwilio i'r mater;
iii. indemnio'r cynghorydd neu'r aelod nad yw'n gynghorydd a chanddo'r hawl i bleidleisio o ran ei gostau cyfreithiol perthnasol ac mae unrhyw indemniad perthnasol yn amodol ar gymeradwyaeth gan gyfarfod o'r cyngor llawn.

# 15 Swyddog Priodol

a Y Swyddog Priodol fydd naill ai (1) y clerc neu (2) swyddog gweinyddol a enwebwyd gan y Cyngor i gyflawni gwaith y Swyddog priodol pan mae'r Swyddog Priodol yn absennol.

b Bydd y Swyddog Priodol yn:

i o leiaf dri diwrnod llawn cyn cyfarfod o'r cyngor, pwyllgor neu is-bwyllgor:

- yn rhoi i gynghorwyr, yn bersonol neu drwy'r post yn eu preswylfeydd, wŷs wedi'i lofnodi yn cadarnhau'r amser, y lle a'r agenda: ac yn

- yn darparu, mewn lle amlwg, hysbysiad cyhoeddus o amser, lle ac agenda (ar yr amod y cafodd yr hysbysiad cyhoeddus gydag agenda cyfarfod arbennig o'r Cyngor a gynullwyd gan gynghorwyr ei lofnodi ganddynt) ac yn cyhoeddi'n electronaidd hysbysiad o amser a lle, ac i'r graddau y bo hynny'n ymarferol resymol, unrhyw ddogfennau yn gysylltiedig â'r materion a drafodir yn y cyfarfod onid ydynt yn ymwneud â mater sy'n debygol o gael ei ystyried yn breifat neu pe bai eu datgelu yn groes i unrhyw gyflawniad.

*Gweler rheol sefydlog 3(b) uchod i gael ystyr diwrnodau clir ar gyfer cyfarfod y cyngor llawn a rheol sefydlog 3(c) uchod ar gyfer cyfarfod pwyllgor.*

ii yn amodol ar reol sefydlog 9, cynnwys ar yr agenda yr holl gynigion yn y drefn y'u derbyniwyd oni roddodd cynghorydd hysbysiad ysgrifenedig o leiaf 7 diwrnod cyn y cyfarfod yn cadarnhau ei f/bod yn ei dynnu'n ôl;

i. yn cynnull cyfarfod o'r cyngor llawn ar gyfer ethol Cadeirydd newydd i'r Cyngor, a hynny oherwydd y daeth ei swydd yn wag;

ii. yn gwneud trefniadau i alluogi etholwyr llywodraeth leol i archwilio'r llyfr cofnodion;

iii. yn derbyn a chadw copïau o is-ddeddfau a wnaed gan awdurdodau lleol eraill;

iv. cadw ffurflenni derbyn swydd gan gynghorwyr;

v. yn cadw copi o gofrestr buddiannau pob cynghorydd;

vi. yn cynorthwyo gydag ymateb i geisiadau a wnaed o dan ddeddfwriaeth rhyddid gwybodaeth a hawliau y gellir eu defnyddio o dan ddeddfwriaeth diogelu data 1998, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau perthnasol y Cyngor;

vii. yn cysylltu, yn ol y galw, gyda Swyddog Preifatrwydd y Cyngor.

viii. yn derbyn ac anfon gohebiaeth a hysbysiadau cyffredinol ar ran y cyngor ac eithrio lle ceir penderfyniad i'r gwrthwyneb;

ix. yn cysylltu, yn ôl y galw, gyda Swyddog Diogelu Data y Cyngor;

x. yn cynorthwyo gyda threfnu, storio, cael mynediad at, diogelwch a dinistrio gwybodaeth a gedwir gan y Cyngor ar bapur ac yn electronaidd yn amodol ar ofynion deddfwriaeth rhyddid gwybodaeth a diogelu data a gofynion cyfreithiol eraill (e.e. Deddf Cyfyngu 1980);

xi. yn trefnu fod gweithredoedd cyfreithiol yn cael eu cyflawni;

Gweler hefyd reol sefydlog 23

xii. yn trefnu neu'n rheoli awdurdodi, cymeradwyo a chyfarwyddo'n ddiymdroi unrhyw daliadau i'w gwneud gan y Cyngor yn unol â'i reoliadau ariannol;

xiii. yn cofnodi pob cais cynllunio y cafodd y Cyngor wybod amdanynt ac ymateb y Cyngor i'r awdurdod cynllunio lleol mewn llyfr pwrpasol i'r perwyl hwnnw;

xiv. yn cyfeirio cais cynllunio a dderbyniwyd gan y Cyngor at y [Cadeirydd neu yn ei absenoldeb Is-Gadeirydd (os oes un) y Cyngor] NEU [Cadeirydd neu yn ei absenoldeb Is-Gadeirydd (os oes un) y Pwyllgor (   )] o fewn dau ddiwrnod i'w dderbyn i drefnu cyfarfod arbennig os yw natur y cais cynllunio yn golygu fod rhaid ei ystyried cyn cyfarfod cyffredin nesaf y [Cyngor] NEU [pwyllgor (   )];

xv. yn rheoli mynediad at wybodaeth am y Cyngor trwy'r cynllun cyhoeddiadau; ac

*xvi.* yn cadw sêl y Cyngor (os oes un) na chaiff ei ddefnyddio heb wneud penderfyniad i'r perwyl hwnnw.
*Gweler hefyd reol sefydlog 23.*

xv. bydd y **Swyddog Technegol** yn cofnodi pob cais cynllunio a ddaw i sylw'r cyngor ac ymateb y cyngor i'r awdurdod cynllunio lleol mewn llyfr at ddiben o'r fath;

xvi. dylai'r **Swyddog Technegol** gyfeirio cais cynllunio a gafwyd gan y cyngor i'r cadeirydd neu yn absenoldeb y cadeirydd i is-gadeirydd y cyngor yn y cyfarfod cynllunio nesaf sydd ar gael

xvii. bydd y **Swyddog Technegol** yn hwyluso cyfarfod arbennig os yw natur cais cynllunio yn gofyn am ystyriaeth cyn cyfarfod cynllunio nesaf y cyngor

# 16 Swyddog Ariannol Cyfrifol

a Bydd y Cyngor yn penodi aelod(au) priodol o’r staff i gyflawni gwaith y Swyddog Ariannol Cyfrifol pan mae’r Swyddog Ariannol Cyfrifol yn absennol.

# 17 Cyfrifon a daganiadau cyfrifyddu

a Mae "arferion priodol" mewn rheolau sefydlog yn cyfeirio at fersiwn ddiweddaraf Llywodraethu ac Atebolrwydd i Gynghorau Lleol yng Nghymru – Arweiniad i Ymarferwyr.

b Mae'n rhaid i bob taliad gan y cyngor gael ei awdurdodi, ei gymeradwyo a'i dalu yn unol â'r gyfraith, arferion priodol a rheoliadau ariannol y cyngor.

c Bydd y Clerc/Swyddog Ariannol Cyfrifol yn rhoi datganiad i bob cynghorydd cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl ar ddiwedd pob mis heblaw mis Mawrth ym mhob blwyddyn i grynhoi:

i. derbynebau a thaliadau'r cyngor ar gyfer pob mis;
ii. cyfanswm derbynebau a thaliadau ar gyfer y flwyddyn hyd yn hyn;
iii. y balansau ar ddiwedd y mis sydd dan sylw

ac sy'n cynnwys cymhariaeth â'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol ac sy'n nodi unrhyw orwario neu orwario posibl.

iv. y gweddillion sydd ar gael ar ddiwedd y chwarter yr adroddir arno ac sy’n cynnwys cymhariaeth gyda’r gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol ac yn amlygu unrhyw orwariannau gwirioneddol neu bosib.

d Cyn gynted â phosibl yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol ar 31 Mawrth, bydd y Clerc/Swyddog Ariannol Cyfrifol yn :

i. datganiad i bob cynghorydd yn crynhoi derbynebau a thaliadau'r cyngor ar gyfer y mis diwethaf a'r flwyddyn hyd yn hyn er gwybodaeth; ac
ii. i'r cyngor llawn bydd yn rhoi datganiadau cyfrifo am y flwyddyn yn ffurf Adran 1 y ffurflen flynyddol, fel sy'n ofynnol yn ôl arferion priodol, i'w hystyried a'u cymeradwyo.

e Caiff datganiadau cyfrifo diwedd blwyddyn eu paratoi yn unol ag arferion priodol a chan ddefnyddio'r ffurf o gyfrifon a bennir gan y Cyngor (derbyniadau a gwariant, neu incwm a gwariant) ar gyfer blwyddyn hyd at 31 Mawrth. Cyflwynir drafft ddatganiad llywodraethiant ac atebolrwydd blynyddol cyflawn i bob cynghorydd o leiaf 14 diwrnod cyn y disgwylir iddo gael ei gymeradwyo gan y Cyngor. Cyflwynir datganiad llywodraethiant ac atebolrwydd blynyddol y Cyngor, sy'n cael ei archwilio'n allanol, gan gynnwys y datganiad llywodraethiant blynyddol, i'r Cyngor i'w ystyried a'i gytuno'n ffurfiol cyn 30 Mehefin.

# 18 Rheoliadau ariannol a chaffael

a Bydd y cyngor yn ystyried a chymeradwyo rheoliadau ariannol a baratowyd gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol, fydd yn cynnwys trefniadau manwl ar gyfer y canlynol:

i. cadw cofnodion cyfrifo a systemau rheolaeth fewnol;
ii. asesu a rheoli risgiau ariannol a wynebir gan y Cyngor;
iii. gwaith yr archwilydd mewnol annibynnol yn unol ag arferion priodol a derbyn adroddiadau rheolaidd gan yr archwilydd mewnol, fydd yn gorfod cael eu darparu o leiaf yn flynyddol;
iv. galluogi cynghorwyr ac etholwyr lleol i archwilio a chopïo cyfrifon y Cyngor a/neu gorchmynion talu; ac
v. yn amodol ar reolau sefydlog 18(e) ac (f) a ddylai contractau yr amcangyfrifwyd eu bod werth llai na [25,000] neu oherwydd amgylchiadau arbennig gael eu heithrio o broses dendro neu ymarferiad caffael.

b Bydd rheoliadau ariannol yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac o leiaf bob blwyddyn i sicrhau eu bod yn gweddu i'w pwrpas.

c Yn amodol ar ofynion ychwanegol yn rheoliadau ariannol y cyngor, bydd y broses dendro ar gyfer contractau i gyflenwi nwyddau, deunyddiau, gwasanaethau neu weithredu gwaith yn cynnwys dim llai na'r camau canlynol:

i. llunio manyleb o'r nwyddau, y deunyddiau, y gwasanaethau neu weithredu gwaith;
ii. llunio gwahoddiad i dendro i gadarnhau (i) manyleb y cyngor (ii) amser, dyddiad a'r cyfeiriad i gyflwyno'r tendrau (iii) dyddiad ymateb ysgrifenedig y cyngor i'r tendr a (iv) gwahardd contractwyr posibl rhag cysylltu â chynghorwyr neu staff i annog neu gefnogi'u tendr y tu allan i'r broses benodedig;
iii. bydd y gwahoddiad I dendo yn cael ei hysbysebu mewn papur lleol ac mewn unrhyw fodd arall sy'n briodol
iv. dylai'r cyngor gefnogi busnesau lleol a sicrhau gwerth am arian

v. dylid cyflwyno tendrau yn ysgrifenedig mewn amlen wedi'i selio wedi'i chyfeirio at y Swyddog Priodol;

vi. bydd tendrau'n cael eu hagor gan y Swyddog Priodol ym mhresenoldeb o leiaf un cynghorydd wedi'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno tendrau;

vii. bydd tendrau'n cael eu hadrodd a'u hystyried gan bwyllgor periodol y Cyngor neu bwyllgor neu is-bwyllgor y dirprwywyd cyfrifoldeb iddo.

**b Bydd contract cyhoeddus a reoleiddir gan Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 ag iddynt werth amcangyfrifiedig o fwy na £181,302 ar gyfer contract gwasanaeth neu gyflenwad cyhoeddus neu fwy na £4,551,413 ar gyfer contract gwaith cyhoeddus (neu drothwyon eraill a bennir gan y Comisiwn Ewropeaidd bob dwy flynedd ac a gyhoeddir yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd (OJEU)) yn cydymffurfio â'r gweithdrefnau caffael perthnasol a gofynion eraill yn Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 sy'n cynnwys hysbysebu'r cyfle contract ar wefan Contracts Finder ac yn OJEU.**

**c Bydd contract cyhoeddus yn ymwneud â chyflenwi nwy, gwres, trydan, dŵr yfed, gwasanaethau trafnidiaeth neu wasanaethau post i'r cyhoedd; neu ddarparu porthladd neu faes awyr; neu archwilio neu ar gyfer alldynnu nwy, olew neu danwydd solet ag iddo werth amcangyfrifiedig o fwy na £363,424 ar gyfer contract cyflenwi, gwasanaethau neu gynllunio; neu fwy na £4,551,413 ar gyfer contract gwaith; neu £820,370 ar gyfer contract gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau penodol eraill (neu drothwyon eraill a bennir gan y Comisiwn Ewropeaidd bob dwy flynedd ac a gyhoeddir yn OJEU) yn cydymffurfio â'r gweithdrefnau caffael perthnasol a gofynion eraill yn Rheoliadau Contractau Cyfleustodau 2016.**

d .

# 19 Delio â materion staff

a Mae mater sy'n ymwneud yn bersonol ag aelod o staff sy'n cael ei ystyried gan gyfarfod cyngor yn amodol ar reol sefydlog 11 uchod.

b Yn amodol ar bolisi'r cyngor ynghylch absenoldebau o'r gwaith, bydd uwch aelod staff y cyngor yn rhoi gwybod i gadeirydd y cyngor, neu os nad yw'r cadeirydd ar gael yr is-gadeirydd am absenoldeb oherwydd salwch neu reswm arall, a bydd yr unigolyn hwnnw'n rhoi gwybod am absenoldeb o'r fath i'r cyngor yn ei gyfarfod nesaf.

c Cadeirydd y cyngor neu yn ei absenoldeb, yr is-gadeirydd fydd, ar ôl penderfynu ar hyn, yn cynnal adolygiad o berfformiad a gwerthusiad blynyddol gwaith [teitl swydd y gweithiwr]. Dylid cyflwyno'r adolygiadau a'r gwerthusiad yn ysgrifenedig ac mae'n amodol ar gymeradwyaeth trwy benderfyniad gan y cyngor.

d Yn amodol ar bolisi'r cyngor o ran delio â chwynion, bydd uwch weithiwr (neu weithwyr eraill) y cyngor yn cysylltu â chadeirydd y cyngor, neu yn ei absenoldeb, is-

gadeirydd y cyngor ynghylch cwyn anffurfiol neu ffurfiol, a dylid adrodd yn ôl am y mater hwn a'i gynyddu trwy benderfyniad y cyngor.

e Yn amodol ar bolisi'r cyngor o ran delio â chwynion, os yw cwyn anffurfiol neu ffurfiol a godwyd gan [teitl swydd y gweithiwr] yn ymwneud â chadeirydd neu is-gadeirydd y cyngor, dylid dweud hyn wrth aelod arall o'r cyngor, a bydd yn adrodd yn ôl ar y mater hwn trwy benderfyniad y cyngor.

f Bydd unrhyw unigolyn sy'n gyfrifol am ran neu holl reolaeth staff yn trin cofnodion ysgrifenedig pob cyfarfod sy'n ymwneud â'u perfformiad, gallu, cwynion neu faterion disgyblu yn gyfrinachol ac yn ddiogel.

g Yn unol â rheol sefydlog 11(a), bydd gan bersonau a chanddynt gyfrifoldebau rheoli llinell hawl i weld cofnodion staff y cyfeirir atynt yn rheol sefydlog 19(f).

h Dim ond unigolion a chanddynt gyfrifoldebau rheolwr llinell fydd ganddynt fynediad i gofnodion staff fel y cyfeirir ato yn rheolau sefydlog 19(f) a (g) uchod os gellir cyfiawnhau hynny.

i Darperir mynediad a dulliau mynediad trwy allweddi a/neu gyfrineiriau cyfrifiadurol i gofnodion cyflogaeth y cyfeirir atynt yn rheolau sefydlog 19(f) a (g) uchod i ddeiliad y swydd yn unig.

# 20 Cyfrifoldebau i ddarparu gwybodaeth

*Gweler hefyd reol sefydlog 21.*

a Yn unol â deddfwriaeth rhyddid gwybodaeth, bydd y Cyngor yn cyhoeddi gwybodaeth yn unol â'i gynllun cyhoeddiadau ac yn ymateb i geisiadau am wybodaeth sydd ym meddiant y Cyngor.

a Dylid delio â cheisiadau am wybodaeth sydd gan y cyngor yn unol â pholisi'r cyngor o ran delio â cheisiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Deddf Diogelu Data 1998.

b Dylid cyfeirio gohebiaeth a gafwyd gan y Comisiynydd Gwybodaeth a hysbysiadau a gyflwynwyd gan y Comisiynydd i gadeirydd pwyllgor priodol gan y Swyddog Priodol. Bydd gan y pwyllgor dan sylw'r pŵer i wneud unrhyw beth i hwyluso cydymffurfio â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

# 21 Cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth diogelu data

(Nid yw'r rhestr isod yn hollgynhwysol).

*Gweler hefyd reol sefydlog 11.*

a Gall y Cyngor benodi Swyddog Diogelu Data.

b Bydd gan y Cyngor bolisïau a gweithdrefnau ar gyfer ymateb i unigolyn sy'n defnyddio hawliau statudol ynghylch ei ddata/data personol.

c Bydd gan y Cyngor bolisi ysgrifenedig ar gyfer ymateb i a rheoli achos o dorri amodau trin data personol.

d Bydd y Cyngor yn cadw cofnod o'r holl achosion o dorri amodau trin data personol yn cynnwys y ffeithiau ynghylch yr achos o dorri amodau trin data personol, ei effeithiau a'r camau lliniarol a gymerwyd.

e Bydd y Cyngor yn gofalu fod yr holl wybodaeth a gyflwynwyd yn ei hysbysiad(au) preifatrwydd mewn ffurf hygyrch hwylus a'i bod yn cael ei chadw'n gyfredol.

f Bydd y Cyngor yn cadw cofnod ysgrifenedig o'i weithgarwch prosesu.

# 22 Cysylltiadau a'r wasg/cyfryngau

a Bydd ceisiadau oddi wrth y wasg neu gyfryngau eraill am sylw neu ddatganiad llafar neu ysgrifenedig gan y Cyngor, ei gynghorwyr neu staff yn cael eu trin yn unol â pholisi'r Cyngor ar ddelio â'r wasg a/neu gyfryngau eraill.

# 23 Gweithredu a selio gweithredoedd cyfreithiol

*Gweler hefyd rheolau sefydlog 15(b)(xii) ac (xvii) uchod.*

a Ni ddylid cyflawni gweithred gyfreithiol ar ran y cyngor oni bai yr awdurdodir hynny trwy benderfyniad.

b Yn amodol ar reol sefydlog 22(a) uchod, dylid defnyddio selnod cyffredin y cyngor yn unig ar gyfer selio gweithred sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith. Caiff ei roi ar waith gan y Swyddog Priodol ym mhresenoldeb dau gynghorydd a fydd yn llofnodi'r weithred fel

tystion.

## 23 Cyfathrebu â chynghorwyr Sir

a Anfonir gwahoddiad i fod yn bresennol mewn cyfarfod y cyngor, yn ogystal â'r agenda, at gynghorydd/wyr ward y Cyngor Sir sy'n cynrychioli ardal y cyngor.

b Oni bai fod y cyngor yn pennu fel arall, anfonir copi o bob llythyr yr anfonwyd i'r Cyngor Sir ymlaen i gynghorydd/wyr ward y Cyngor Sir sy'n cynrychioli ardal y cyngor.

## 24 Cyfyngiadau ar weithgarwch cynghorwyr

a. Oni bai yr awdurdodir hynny trwy benderfyniad, ni ddylai'r un cynghorydd:

i. archwilio unrhyw dir a/neu safle lle mae gan y cyngor yr hawl neu ddyletswydd i'w archwilio; neu

ii. roi gorchmynion, cyfarwyddiadau neu gyfeiriadau.

## 25 Defnyddio'r Iaith Gymraeg

Bydd cyfarfodydd y cyngor yn ddwyieithog a phan wneir cyfraniad yn Gymraeg, bydd y siaradwr, y cadeirydd neu swyddog yn rhoi crynodeb o'r araith yn Saesneg os gofynnir iddo wneud hynny gan unrhyw aelod o'r cyngor.

## 26 Rheolau Sefydlog yn gyffredinol

a Gall rhan o reol sefydlog neu reol gyfan, ac eithrio un sy'n cyfuno gofynion statudol gorfodol, gael ei hatal trwy benderfyniad sy'n ymwneud ag ystyried eitem ar agenda cyfarfod.

b Dylid gwneud cynnig i ychwanegu neu amrywio neu ddirymu un neu ragor o reolau sefydlog y cyngor, ac eithrio un sy'n cyfuno gofynion statudol
gorfodol trwy gynnig arbennig, a bydd angen rhoi'r hysbysiad ysgrifenedig gan ddim llai na 7 cynghorydd i'r Swyddog Priodol yn unol â rheol sefydlog 9 uchod.

c Bydd y Swyddog Priodol yn darparu copi o reolau sefydlog y cyngor i gynghorydd cyn gynted â phosibl ar ôl iddo ddarparu ei ffurflen derbyn swydd.

d Bydd penderfyniad cadeirydd y cyfarfod o ran cais am reolau sefydlog yn y cyfarfod yn derfynol.

Adolygwyd y rheolau sefydlog gan y Pwyllgor Polisi ar 1af Chwefror, 2017 ac fe'u cymeradwywyd gan y cyngor llawn ar 22ain Chwefror, 2017.  Cânt eu hadolygu eto mewn 12 mis.

Cadeirydd: ______________________________ Clerc _________________